



Gwyddoniaeth y


Pridd

Mae cywasgu pridd gan gerbydau ac anifeiliaid yn broblem fawr i ffermwyr. Mae gwyddonwyr yn datblygu technegau a pheiriannau newydd i gynnal ansawdd y pridd.

Mae 95% o'n cyflenwad bwyd yn dibynnu ar bridd. Mae pridd iach yn hollbwysig ar gyfer ffermio a chymdeithas. Mae angen rheoli pridd mewn ffordd sensitif a chynaliadwy.

Mae pridd iach yn llawn bywyd! Mae'r strwythur mandyllog yn darparu lle i wreiddiau ac organebau fyw. Mae gwyddonwyr pridd yn helpu ffermwyr i reoli a gwella'r adnodd naturiol gwerthfawr hwn.

Mae pelydrau-x o ronynnau pridd yn helpu gwyddonwyr i ddeall strwythurau pridd a sut mae aer, dŵr a gwreiddiau yn mynd drwyddo.



Mae'r dechnoleg ddiweddaraf yn gallu dadansoddi pridd yn gyflym, gan helpu gwyddonwyr i ddeall y micro-organebau sy'n byw y pridd a'u swyddogaeth. Gall ffermwyr ddefnyddio'r data hwn i ddethol y cynydau cywir ar gyfer y mathau penodol o bridd.

Oeddech chi'n gwybod...

mae mwy o ficro-organebau mewn llond llaw o bridd na phobl ar y blaned!



Oeddech chi'n gwybod...

mae dros 3000 o fathau gwahanol o bridd.



Pridd =
dŵr, aer, mineralau a sylwedd organig (hen blanhigion pydredig!)

Mae mwydod yn ddangosyddion da o bridd iach. Mae gwyddonwyr wedi cyfrifo bod 16 mwyd yn mewn un llond rhaw o bridd yn gallu hybu cynydau 20%.